OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 2302

# Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002

## Marciau

**6.**—(1) Rhaid dodi marc sy'n cael ei ddodi o dan y Gorchymyn hwn (ac eithrio marc dros dro) ar glust yr anifail ar ffurf tag clust neu datŵ .

(2) Rhaid i **dag clust** fod—

(a) wedi'i wneud naill ai o fetel neu o blastig neu o gyfuniad o fetel a phlastig;

(b) yn un na ellir ymyrryd ag ef;

(c) wedi'i brintio neu wedi'i stampio â'r llythrennau a'r rhifau sy'n ofynnol fel eu bod yn hawdd i'w darllen drwy gydol oes yr anifail;

(ch) o fath nad yw'n ymyrryd â llesiant yr anifail; a

(d) yn goch ei liw os yw'n dwyn Marc R ond nid mewn unrhyw achos arall.

(3) Ystyr **tatŵ** yw tatŵ sy'n ddarllenadwy drwy gydol oes yr anifail.

(4) **Marc F**—

(a) pan fydd wedi'i farcio ar dag clust, yw'r llythrennau "UK" wedi'u dilyn gan farc diadell neu farc gyr y daliad y mewnforiwyd yr anifail iddo o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd, a'r marc hwnnw wedi'i ddilyn gan y llythyren "F";

(b) pan fydd wedi'i farcio ar datŵ , yw marc diadell neu farc gyr y daliad hwnnw wedi'i ddilyn gan y llythyren "F".

(5) **Marc Tarddiad**—

(a) pan fydd wedi'i farcio ar dag clust, yw'r llythrennau "UK" wedi'u dilyn gan farc diadell neu farc gyr daliad geni yr anifail;

(b) pan fydd wedi'i farcio ar datŵ, marc diadell neu farc gyr daliad geni yr anifail.

(6) **Marc R**—

(a) pan fydd wedi'i farcio ar dag clust, yw'r llythrennau "UK" wedi'u dilyn gan farc diadell neu farc gyr y daliad lle'r oedd yr anifail yn cael ei gadw pan gafodd ei farcio felly, a'r marc hwnnw wedi'i ddilyn gan y llythyren "R";

(b) pan fydd wedi'i farcio ar datŵ , yw marc diadell neu farc gyr y daliad lle'r oedd yr anifail yn cael ei gadw pan gafodd ei farcio felly, a'r marc hwnnw wedi'i ddilyn gan y llythyren "R";

(7) **Marc S** yw'r llythyren "S" wedi'i dilyn gan farc diadell neu farc gyr y daliad lle'r oedd yr anifail yn cael ei gadw pan gafodd ei farcio felly;

(8) **Marc X** yw'r llythrennau "UK" wedi'u dilyn gan farc diadell neu farc gyr y daliad y mae'r anifail i'w symud oddi yno i gyrchfan y tu allan i Brydain Fawr, a'r marc hwnnw wedi'i ddilyn gan y llythyren "X".

(9) Rhif yw "**rhif adnabod unigol**"—

(a) nad yw'n gymwys i unrhyw ddefaid eraill â'r un marc diadell nac i unrhyw afr arall â'r un marc gyr;

(b) sy'n cael ei ddodi ar dag clust yr un pryd ag y mae Marc Tarddiad, Marc S, Marc F, Marc R neu Farc X yn cael ei ddodi, neu sy'n cael ei datŵ io ar un o glustiau'r anifail yr un pryd ag y mae Marc Tarddiad, Marc S, Marc F, Marc R neu Farc X yn cael ei datŵ io ar un o'i glustiau; ac

(c) yn achos tag clust ac yn ddarostyngedig i baragraff (10), sy'n dilyn yn union ar ôl Marc Tarddiad, Marc S, Marc F, Marc R neu Farc X neu sy'n cael ei ddodi ar un ochr o'r tag clust y mae Marc Tarddiad, Marc S, Marc F, Marc R neu Farc X ar yr ochr arall iddo.

(10) Ni fydd rhif yn methu â bod yn "rhif adnabod unigol" os yr unig reswm am hynny yw na chafodd ei ddodi ar yr un tag clust â'r Marc Tarddiad, y Marc S, y Marc F, y Marc R neu'r Marc X—

(a) os cafodd y rhif hwnnw ei ddodi mewn rhan o Ynysoedd Prydain y tu allan i Gymru o dan y ddeddfwriaeth mewn grym yn y rhan honno; neu

(b) os cafodd y rhif ei ddodi yng Nghymru cyn 11 Chwefror 2002.

(11) Rhaid i farc dros dro fod yn ddigon neilltuol i'w ddisgrifio yn y ddogfen sy'n ofynnol o dan erthygl 12 a rhaid iddo barhau i fod yn weladwy i'r llygad noeth nes i'r anifail gael ei gigydda neu nes iddo ddychwelyd i'r daliad yr oedd wedi'i anfon iddo er mwyn ei werthu i'w gigydda neu ddychwelyd i'r daliad o dir pori dros dro.